Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: FM/05340/11

David Melding AC
Cadeirydd – Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

28 Gorffennaf 2011

Annwyl David,

**Offerynnau Statudol a osodwyd cyn neu yn ystod diddymu'r Trydydd Cynulliad**

Ysgrifennaf atoch i ymateb i'ch llythyr dyddiedig 7 Gorffennaf yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Offerynnau Statudol a gynhaliwyd ar 22 Mehefin.

Yn eich llythyr, roeddech yn sôn am bryder y Pwyllgor bod eitemau o is-ddeddfwriaeth wedi'u cyflwyno yn rhy hwyr yn nhymor y Cynulliad iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, fel yr oedd bryd hynny. Yr oeddech, yn enwedig, yn cyfeirio at Godi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol a Rheoliadau Cartrefi Gofal.

Rwy'n falch bod y Pwyllgor wedi medru ystyried Rheoliadau Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Adolygu Penderfyniadau ar Godi Ffioedd) (Cymru) 2011 yn ei gyfarfod olaf ar 30 Mehefin.

Roedd y rheoliadau hyn, ynghyd â Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011, a Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011 yn destun llythyr i'r Llywydd, dyddiedig 29 Mawrth, yn esbonio pam fod angen peidio â chydymffurfio â'r 'rheol 21 diwrnod' (copi ynghlwm er hwylustod).

Yn achos Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2011, cydnabu'r Pwyllgor arwyddocâd y rheoliadau hyn o gofio pryder y cyhoedd am y modd y rheolir ac y gweithredir cartrefi gofal ar gyfer oedolion. Gan ystyried y byddai'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu i'r Cynulliad newydd ystyried y rheoliadau, ac os byddai'n dymuno, eu dirymu, penderfynodd Llywodraeth Cymru fod budd i'r cyhoedd mewn gwneud a gosod y rheoliadau cyn diddymu'r Cynulliad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

Y mae, efallai'n anorfod, tua diwedd tymor Cynulliad, bod y Llywodraeth mewn sefyllfa o geisio sicrhau bod ei blaenoriaethau deddfwriaethol wedi'u cyflawni, ac nad yw'r bwlch a achosir gan y cyfnod cyn etholiad yn achosi anfantais i bobl Cymru. Wrth gwrs, nid oes modd gosod unrhyw ddogfennau tra bod y Cynulliad wedi'i ddiddymu. Gall hyn olygu bod angen dwyn ymlaen is-ddeddfwriaeth a fyddai, mewn amgylchiadau eraill, wedi'i gosod yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad, wrth gwrs, yn ei gwneud yn glir y darperir cyfnod o 20 niwrnod i'r Pwyllgor baratoi adroddiad, a 40 niwrnod i'r Cynulliad benderfynu dirymu offeryn, er mwyn cwmpasu adeg pan fo'r Cynulliad wedi'i ddiddymu. Rwy'n cydnabod bod posibilrwydd, pan osodwyd rhai o'r eitemau hyn, y byddai'r 40 niwrnod yn dod i ben cyn i'r Cynulliad newydd bennu'i Bwyllgorau. Serch hynny, nid oedd hyn yn rhagfarnu gallu'r Cynulliad i wneud trefniadau interim ar gyfer craffu ar yr Offerynnau Statudol hyn, pe byddai angen. At hynny, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur ar 29 Mawrth a oedd yn awgrymu y dylid ystyried atal y Rheolau Sefydlog er mwyn medru rhoi'r 20 niwrnod oedd ei angen o'r neilltu lle bo galw am hynny, pe byddai oedi cyn sefydlu'r pwyllgor perthnasol o dan y 4ydd Cynulliad (mae'r papur hwnnw'n amgaeedig er hwylustod).

Hyderaf fod hyn o gymorth i chi.

Yn gywir,

**CARWYN JONES**